



Teitl yr adroddiad: <i>Report title:</i>	Ymateb gan Reolwyr i Adolygiad Annibynnol: Adolygiad Diogelwch Cleifion			
Adroddiad at sylw: <i>Report to:</i>	Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad			
Dyddiad y Cyfarfod: <i>Date of Meeting:</i>	27 Hydref 2023			
Crynodeb Gweithredol: <i>Executive Summary:</i>	Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r ymateb cyntaf gan reolwyr yn dilyn yr Adolygiad Diogelwch Cleifion.			
Argymhellion: <i>Recommendations:</i>	Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad hwn.			
Arweinydd Gweithredol: <i>Executive Lead:</i>	Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth			
Awdur yr Adroddiad: <i>Report Author:</i>	Matthew Joyes, Dirprwy Gyfarwyddwr dros Lywodraethu Ansawdd			
Pwrpas yr adroddiad: <i>Purpose of report:</i>	I'w Nodi <i>For Noting</i> <input type="checkbox"/>	I Benderfynu arno <i>For Decision</i> <input checked="" type="checkbox"/>	Am Sicrwydd <i>For Assurance</i> <input type="checkbox"/>	
Lefel sicrwydd: <i>Assurance level:</i>	Arwyddocaol <i>Significant</i> <input type="checkbox"/> Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</i>	Derbyniol <i>Acceptable</i> <input checked="" type="checkbox"/> Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Rhannol <i>Partial</i> <input type="checkbox"/> Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol <i>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</i>	Dim Sicrwydd <i>No Assurance</i> <input type="checkbox"/> Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth <i>No confidence / evidence in delivery</i>
<p>Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:</p> <p><i>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</i></p>				
Cysylltiad ag Amcan/Amcanion Strategol: <i>Link to Strategic Objective(s):</i>	Cynorthwyo â'r ymateb i'r Mesurau Arbennig			

<p>Goblygiadau rheoleiddio a chyfreithiol:</p> <p><i>Regulatory and legal implications:</i></p>	Nid yw'n berthnasol
<p>Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?</p> <p><i>In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?</i></p>	Nid yw'n berthnasol
<p>Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?</p> <p><i>In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?</i></p>	Nid yw'n berthnasol
<p>Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)</p> <p><i>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks(cross reference to the BAF and CRR)</i></p>	Nid yw'n berthnasol
<p>Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith</p> <p><i>Financial implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	Nid yw'n berthnasol
<p>Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith</p> <p><i>Workforce implications as a result of implementing the recommendations</i></p>	Nid yw'n berthnasol
<p>Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori</p> <p><i>Feedback, response, and follow up summary following consultation</i></p>	Nid yw'n berthnasol
<p>Cysylltiadau â risgiau BAF: (neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)</p> <p><i>Links to BAF risks: (or links to the Corporate Risk Register)</i></p>	Nid yw'n berthnasol
<p>Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)</p> <p><i>Reason for submission of report to confidential board (where relevant)</i></p>	Nid yw'n berthnasol
<p>Camau Nesaf: Gweithredu argymhellion Camau Nesaf/Next Steps: Rhoi'r argymhellion ar waith</p>	

Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, 27 Hydref 2023

Adolygiadau Annibynnol o dan y Mesurau Arbennig - Ymateb gan

Reolwyr

Adolygiad Diogelwch Cleifion

1) Cefndir a chyd-destun

Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn codi statws ymyrraeth y Bwrdd lechyd (BIPBC) i lefel mesurau arbennig ar unwaith. Roedd y penderfyniad hwn yn adlewyrchu pryderon difrifol a rhai heb eu datrys ynghylch effeithiolrwydd y bwrdd, diwylliant y sefydliad, ansawdd ac ad-drefnu gwasanaethau, llywodraethu, diogelwch cleifion, cyflawni gweithredol, arweinyddiaeth a rheolaeth ariannol. Penodwyd nifer o Gyngorwyr Annibynnol er mwyn sefydlu tîm gwella a chynorthwyo yn BIPBC i ddarparu'r cymorth a'r cyngor sy'n ofynnol i alluogi BIPBC i weithredu'r newidiadau sy'n ofynnol er mwyn sicrhau gwelliannau. Yn yr achos hwn, mae'r cymorth a'r cyngor yn cynnwys nifer o fesurau sy'n deillio o'r amcanion (monitro, sicrwydd, gwerthuso, canllawiau, anogaeth a chymorth) a bydd y cyfuniad o'r mesurau hyn yn cynnig sicrwydd i randdeiliaid (yn cynnwys cleifion, staff a'r cyhoedd yn ehangach).

Fe wnaeth trafodaethau â staff ac Aelodau Annibynnol blaenorol ddadlennu nifer o bryderon yn ymwneud â diogelwch cleifion mewn perthynas â BIPBC, ond ni rannwyd unrhyw fanylion am y pryderon hyn. Wrth ddwysáu statws ymyrraeth y Bwrdd lechyd i lefel Mesurau Arbennig, gofynnodd y Gweinidog am gael cynnal asesiad ar wahân i ganfod a oedd y pryderon hyn yn rhai dilys a pha un ai a oedd angen rhagor o ymchwilio.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r ymateb cyntaf gan reolwyr yn dilyn yr Adolygiad Diogelwch Cleifion hwn.

Atgoffir y Pwyllgor hefyd fod Adolygiad Llywodraethu Clinigol ar fin cychwyn a cheir cyd-ddibyniaethau cryf rhwng y ddau adolygiad, a bydd yr adolygiad hwn yn sail i gymorth hirdymor, felly bydd y camau yn ymwneud â'r agenda ansawdd ehangach yn ehangu wrth i'r adolygiad pellach hwn gychwyn.

2) Trosolwg o'r Sesiwn Ddatblygu

Fe wnaeth y Cynghorydd Annibynnol a lywiodd yr adolygiad gyflwyno'r adroddiad i aelodau'r Pwyllgor yn ystod sesiwn ddatblygu ar 14 Medi 2023. Fe wnaeth hyn roi cyfle i'r Pwyllgor wrando ar yr arweinydd a gofyn cwestiynau.

Nid oes argymhellion penodol wedi'u cynnig yn sgil yr arolwg, ond mae meysydd ffocws wedi'u pennu. Mae'r meysydd ffocws hyn yn cyd-fynd yn llwyr â'r themâu cyffredinol sydd wedi'u nodi o'r holl adolygiadau a gynhaliwyd fel rhan o'r Mesurau Arbennig hyd yn hyn (gweler y mapio isod).

Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae nifer o adolygiadau ategol ar y gweill neu'n mynd rhagddynt (er enghraifft, yr Adolygiad o Lywodraethu Clinigol a'r Adolygiad o Bortffolios y Gweithredwyr), ac felly, bydd yr ymateb cychwynnol gan reolwyr sydd wedi'i atodi yn cael ei ddatblygu i gynnwys camau sy'n cyd-fynd â'r gwaith ehangach hwnnw ac yn gysylltiedig â hynny.

Os yw'r meysydd ffocws sydd wedi'u disgrifio yn yr adroddiad eisoes yn dangos eu bod yn cyd-fynd ag adolygiadau eraill a gweithgarwch gwella arall (er enghraifft, yr Adolygiad o Bortffolios y Gweithredwyr), nid yw'r camau wedi'u cynnwys yma er mwyn osgoi dyblygu.

3) Themâu Allweddol o'r Adolygiad

Themâu yn deillio o'r adolygiadau a gafwyd hyd yn hyn	Perthnasol i'r adolygiad hwn <i>Rhowch X yn y blwch os yw'n berthnasol</i>
<p>1. Data, Hysbysrwydd a Dirnadaeth Sicrhau bod yna ddull gweithredu ar draws y sefydliad gydag ymyriadau wedi'u blaenoriaethu er mwyn gwella ein data, ein gwybodaeth a'n hadnoddau a'n galluedd i gael mewnwelediad. Bydd hyn yn alluogwr allweddol ar gyfer gwelliannau cynaliadwy yn ogystal â chynorthwyo i nodi gwasanaethau a allai beri pryder yn y dyfodol.</p>	☒
<p>2. Diwylliant Diffinio, ymgysylltu ac ymrwymo i'r gwaith hirdymor sydd ei angen i wella diwylliant y sefydliad. Ei integreiddio i'n cynllun datblygu sefydliadol ehangach ar draws Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu.</p>	☒
<p>3. Rheoli Risg Adolygu a mireinio ein hymagwedd a'n hawydd at risg, gan gynnwys sut mae risgiau'n cael eu nodi, eu rheoli, eu lliniaru, eu hadrodd a'u monitro.</p>	☒
<p>4. Cynnwys Cleifion, Teuluoedd a Gofalwyr Un dull cydgysylltiedig o gynnwys ac ymgysylltu â'n cleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr i'r eithaf, gan ddefnyddio eu profiadau i arwain ein gwelliant parhaus yn y gwasanaeth.</p>	☒
<p>5. Model gweithredu Sicrhau bod ein model gweithredu wedi'i gynllunio i gyflawni ein blaenoriaethau strategol, gydag eglurder ar rolau a chyfrifoldebau, systemau a phrosesau o fewn isadrannau a gwasanaethau PBC Gyfan, i bawb ar bob lefel o'r sefydliad</p>	☒
<p>6. Llywodraethu a chydymffurfiaeth yn y sefydliad</p>	☒

Sicrhau gwelededd a dealltwriaeth am arferion gorau llywodraethu ar draws y sefydliad a sicrhau y cedwir ato.	
7. Cynllunio Integredig Agwedd integredig a ddeallir yn dda, at gynllunio fel disgyblaeth, yn ogystal â chyfraniadau at ein proses gynllunio flynyddol.	<input checked="" type="checkbox"/>

4) Argymhellion

Gofynnir i'r pwyllgor **GYMERADWYO** ymateb y rheolwyr yn barod i'w gyhoeddi yn y parth cyhoeddus.

Tabl 1: Cynllun Gweithredu Ymateb y Rheolwyr

Data, Hysbysrwydd a Dirnadaeth					
Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Terfyn amser	Statws RAG¹	Diweddariad ar Gynnydd
	Bydd Dangosfwrdd Ansawdd yn cael ei ddatblygu, a bydd nifer o ddangosfyrddau arbenigol (h.y. codymau, cwynion ac ati) yn sail iddo. Bydd y dangosfyrddau hyn yn creu un fersiwn o'r gwirionedd gan ddefnyddio metrigau cytunedig wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r systemau ansawdd er mwyn sicrhau data mewn amser real. Bydd hyn yn cyd-fynd yn llawn â dangosfwrdd cyffredinol integredig a fydd yn defnyddio dull cerdyn sgorio cytbwys (mae'r dangosfwrdd hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd).	Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd	31 Rhagfyr 2023		Mae drafft cyntaf y dangosfwrdd wedi'i ddatblygu ac mae'n cael ei adolygu er mwyn gallu cyflwyno'r drafft cyntaf i'r gweithredwr sy'n noddi'r cam gweithredu hwn (Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth) cyn cynnal peilot a'i roi ar waith yn sgil hynny.

<p>I gynorthwyo â'r uchod, bydd catalog data ansawdd yn cael ei ddatblygu ar sail set gychwynnol o fesurau craidd, a bydd y mesurau hynny'n cael eu dethol o'r systemau ansawdd mewn amser real ac yn cael eu hychwanegu at y warws data.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd</p>	<p>31 Rhagfyr 2023</p>		<p>Mae'r cysylltiad cyntaf wedi'i sefydlu rhwng system Datix a'r warws data cyn gwneud rhagor o waith profi a datblygu.</p>
<p>Bydd Grŵp Defnyddwyr Systemau Ansawdd yn cael ei sefydlu i sicrhau ymgysylltu ehangach ynghylch datblygu a rheoli systemau ansawdd.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd</p>	<p>30 Tachwedd 2023</p>		<p>Mae'r grŵp wedi'i sefydlu ac wedi cynnal ei gyfarfod rhagarweiniol cyntaf. Caiff y cylch gorchwyl ei ddatblygu trwy ei lunio ar y cyd â'r holl randdeiliaid allweddol a chaiff ei gyflwyno i'r Grŵp Cyflawni Ansawdd.</p>
<p>Fel rhan o'r broses o addasu portffolios yn y swyddogaeth ansawdd, bydd Tîm Gwybodeg Ansawdd yn cael ei sefydlu i gynnig mwy o gymorth â gwaith dadansoddi a sicrhau trosolwg gwell o'r data ansawdd ynghyd â chymorth i wasanaethau. Bydd cysylltiadau agos rhwng y tîm hwn a'r swyddogaethau Dirnad Busnes a Pherfformiad.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd</p>	<p>31 Rhagfyr 2023</p>		<p>Mae'r tîm cychwynnol wedi'i sefydlu ac maent bellach yn adolygu gweithdrefnau ac arferion gwaith.</p>

<p>Bydd Grŵp Cadw Gwyliadwriaeth ar Ansawdd yn cael ei sefydlu er mwyn gallu triongli data ynghylch ansawdd (yn cynnwys adborth sy'n deillio o farn a phrofiadau pobl) sy'n cyfrannu at ddatblygu'r broses newydd ynghylch Gwasanaethau sy'n Peri Pryder.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd</p>	<p>31 Rhagfyr 2023</p>		
<p>Bydd llyfrgell ganolog a digidol yn cynnwys manylion gwersi a ddysgir yn cael ei lansio, a bydd dull diwygiedig o gydgasglu, dadansoddi a lledaenu gwersi a ddysgir yn cael ei lansio hefyd.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd</p>	<p>31 Mawrth 2024</p>		
<p>Bydd Adroddiad newydd ynghylch Ansawdd ar gyfer Tîm y Gweithredwyr yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod materion ansawdd yn fwy amlwg ac i gynnig mwy o sicrwydd ynghylch ansawdd.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd</p>	<p>30 Tachwedd 2023</p>		
<p>Bydd yr Adroddiad ynghylch Ansawdd ar gyfer y Bwrdd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio er mwyn sicrhau bod materion ansawdd yn fwy amlwg ac i gynnig mwy o sicrwydd ynghylch ansawdd.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd</p>	<p>31 Rhagfyr 2023</p>		

¹ **Diffiniadau o statws RAG:** **Gwyrdd:** Ar y trywydd iawn, **Ambr:** Ddim ar y trywydd iawn ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd iawn, **Coch:** Ddim ar y trywydd iawn heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd iawn

Diwylliant

Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Terfyn amser	Statws RAG ¹	Diweddariad ar Gynnydd
	Bydd gwaith yn parhau yn ystod 2023/24 er mwyn gwreiddio'r Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Ddyletswydd Ansawdd mewn arferion rheolaidd. Bydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau yn cael adroddiadau ynghylch hyn.	Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd	31 Mawrth 2024		Mae'r hyfforddiant ynghylch y Ddyletswydd Gonestrwydd a'r hyfforddiant ynghylch y Ddyletswydd Ansawdd yn dal i gael eu cynnal. Mae archwiliad mewnol ynghylch cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i gwblhau.
	Bydd Fframwaith Sefydliad sy'n Dysgu yn cael ei ddatblygu, ynghyd ag offeryn asesu parodrwydd a fydd yn llywio newidiadau i systemau a'r diwylliant yn y dyfodol a fydd yn ofynnol er mwyn dod yn sefydliad sy'n dysgu.	Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl	31 Mawrth 2024		Mae fframwaith drafft wedi'i ddatblygu, ac mae'n cynnwys elfennau allweddol i wella ansawdd. Bwriedir cynnal gweithdy gyda chlinigwyr, arweinwyr a staff yn Nhachwedd 2023, i sicrhau cynnydd o ran y gwaith hwn gan lunio hynny ar y cyd â'r staff.
	Bydd Cynllun Rhaglen Diwylliant Dysgu Cyfiawn ac Adferol yn cael ei ddatblygu er mwyn llywio gweithredu'r gwaith hwn yn y dyfodol.	Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl	31 Mawrth 2024		Mae cynllun y rhaglen gychwynnol yn cael ei ddatblygu gan Gyfarwyddwr Cyswllt Pobl, yr Uwch Reolwr datblygiad Sefydliadol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd. Un o'r meysydd ffocws cychwynnol fydd ymchwiliadau ynghylch cysylltiadau cyflogaeth.

	Bydd proses Dysgu Gwersi o ragoriaeth yn cael ei datblygu, i wreiddio cysyniadau meddylfryd Safety II.	Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd	31 Awst 2024		Mae offeryn adrodd "Great-ix" a'r broses raeadru gysylltiedig at ddibenion raeadru gwersi a ddysgir wedi cael eu sefydlu, ac maent bellach ar waith.
	Adolygir y Rhaglen Ffactorau Dynol a'i diwygio a byddwn hefyd yn lansio'r hyfforddiant Civility Saves Lives a'r hyrwyddwyr ynghylch hynny.	Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd	31 Rhagfyr 2023		Cynhaliwyd seminar Civility Saves Lives ac fe wnaeth oddeutu 500 aelod o'r staff fynychu, ac mae dau weithdy i hyfforddi hyrwyddwyr wedi'u cynnal.

¹ **Diffiniadau o statws RAG:** **Gwyrdd:** Ar y trywydd iawn, **Ambr:** Ddim ar y trywydd iawn ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd iawn, **Coch:** Ddim ar y trywydd iawn heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd iawn

Rheoli Risg

Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Terfyn amser	Statws RAG ¹	Diweddariad ar Gynnydd
	Bydd proses, gweithdrefn ac offeryn i Asesu'r Effaith ar Ansawdd yn cael eu datblygu a'u lansio, a byddant yn cyd-fynd â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd a chanllawiau cenedlaethol.	Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd	31 Rhagfyr 2023		
	Cynhelir adolygiad o'r pryderon ynghylch gwasanaethau/arbenigeddau penodol a grybwyllir yn yr adroddiad er mwyn sicrhau y caiff y rhain eu hasesu ac yr adroddir yn eu cylch, neu er mwyn cynnig argymhellion at ddibenion dadansoddi ychwanegol (bydd y Grŵp Cyflawni Ansawdd yn cael adroddiadau am hyn).	Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd	31 Mawrth 2024		
	Adolygir a diwygir y dull o ymdrin â sicrhau ansawdd a bydd gweithdrefn reoleiddiol newydd a gweithdrefn sicrhau ansawdd newydd yn cael eu datblygu.	Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd	31 Ionawr 2024		Mae Grŵp Rheoleiddio a Sicrhau Ansawdd newydd wedi'i sefydlu ac mae'r system AMaT bellach wedi cael ei gwreiddio at ddibenion olrhain camau gweithredu yn ymwneud â rheoleiddio. Arbrofwyd hefyd â methodoleg "arolygiadau ffug" er mwyn gallu ei defnyddio yn y dyfodol.

¹ **Diffiniadau o statws RAG:** **Gwyrdd:** Ar y trywydd iawn, **Ambr:** Ddim ar y trywydd iawn ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd iawn, **Coch:** Ddim ar y trywydd iawn heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd iawn

Cynnwys Cleifion, Teuluoedd a Gofalwyr

Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Terfyn amser	Statws RAG ¹	Diweddariad ar Gynnydd
	Bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adborth mewn Amser Real yn cael ei sefydlu er mwyn adolygu'r dull presennol o gasglu adborth gan gleifion a gofalwyr ac i gynnig argymhellion ynghylch datblygu'r dull hwnnw yn y dyfodol.	Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Profiad Cleifion)	31 Rhagfyr 2023		Mae dyddiadau cyfarfodydd y grŵp gorchwyl a gorffen wedi'u cadarnhau.

¹ **Diffiniadau o statws RAG:** **Gwyrdd:** Ar y trywydd iawn, **Ambr:** Ddim ar y trywydd iawn ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd iawn, **Coch:** Ddim ar y trywydd iawn heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd iawn

Model Gweithredu

Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Terfyn amser	Statws RAG ¹	Diweddariad ar Gynnydd
	Bydd rolau'r timau lleol sy'n cynorthwyo ag ansawdd yn cael ei hadolygu a bydd cynigion yn cael eu llunio ynghylch sut i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn y ffordd orau â'r gofynion.	Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd	30 Tachwedd 2023		
	Cynhelir adolygiad o'r pryder yn ymwneud a diogelu a ddisgrifir yn yr adroddiad a chynigir argymhellion ynghylch rhagor o waith y dylid adrodd amdano wrth y Grŵp Cyflawni Ansawdd.	Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio	30 Ionawr 2024		

¹ **Diffiniadau o statws RAG:** **Gwyrdd:** Ar y trywydd iawn, **Ambr:** Ddim ar y trywydd iawn ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd iawn, **Coch:** Ddim ar y trywydd iawn heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd iawn

Cynllunio Integredig

Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Terfyn amser	Statws RAG ¹	Diweddariad ar Gynnydd
	Caiff y Strategaeth Ansawdd newydd ei datblygu trwy gyfrwng proses cyd-lunio	Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd	31 Mawrth 2024		
	Datblygir System Rheoli Ansawdd sy'n cyd-fynd â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd, a bydd hynny'n disgrifio sut fydd y swyddogaethau Cynllunio Ansawdd, Rheoli Ansawdd, Sicrhau Ansawdd a Gwella Ansawdd yn cydweithio fel un system ansawdd gyfunol.	Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd	31 Mawrth 2024		Gwneir y gwaith hwn â chymorth gan Dîm Ansawdd Cenedlaethol Gweithrediaeth GIG Cymru fel rhan o'r Adolygiad o Lywodraethu Clinigol.

¹ **Diffiniadau o statws RAG:** **Gwyrdd:** Ar y trywydd iawn, **Ambr:** Ddim ar y trywydd iawn ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd iawn, **Coch:** Ddim ar y trywydd iawn heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd iawn

Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad

Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Terfyn amser	Statws RAG ¹	Diweddariad ar Gynnydd
	<p>Adolygir a diwygir y Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a bydd yn cynnwys esboniadau gwell ynghylch rolau, cyfrifoldebau ac awdurdod pob grŵp, yn cynnwys disgwyliadau, prosesau a thempledi yn ymwneud ag adroddiadau. Bydd hyn yn cynnwys mapio cyfarfodydd yn gylch cyffredinol a chyflwyno templedi safonol ac un gronfa i storio dogfennau.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd</p>	<p>31 Rhagfyr 2023</p>		
	<p>Bydd y Cymunedau Iechyd Integredig a'r Uwch Adrannau Rhanbarthol yn cael canllawiau ynghylch arferion gorau i'w cynorthwyo i sicrhau trefniadau llywodraethu ansawdd effeithiol yn lleol.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd</p>	<p>31 Ionawr 2024</p>		
	<p>Adolygir a diwygir cylch busnes y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.</p>	<p>Ysgrifennydd y Bwrdd</p>	<p>31 Hydref 2023</p>		<p>Mae cylch busnes arfaethedig wedi'i ddatblygu ac mae wedi'i gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gweithredol nyrsio a Bydwreigiaeth (sef y gweithredwr sy'n llywio gwaith yn y maes hwn). Cyflwynir y cylch i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn Hydref 2023.</p>

Adolygir a diweddarir y Polisi Gweithio i Wella.	Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd	31 Rhagfyr 2023		
Adolygir a diweddarir y Weithdrefn a'r Broses Trin Cwynion er mwyn sicrhau bod y broses yn effeithiol ac er mwyn sicrhau ffocws ar ddysgu gwersi.	Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Profiad Cleifion)	30 Ionawr 2024		
Adolygir a diweddarir y Weithdrefn a'r Broses Ymdrin â Digwyddiadau er mwyn sicrhau bod y broses yn effeithiol ac er mwyn sicrhau ffocws ar ddysgu gwersi.	Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Diogelwch Cleifion)	31 Rhagfyr 2023		Mae'r weithdrefn yn cael ei drafftio ar hyn o bryd i sicrhau ei bod yn ystyried adborth a chynhelir gweithdy yn Hydref 2023.
Adolygir a diweddarir y Weithdrefn a'r Broses Hawliadau er mwyn sicrhau bod y broses yn effeithiol ac er mwyn sicrhau ffocws ar ddysgu gwersi. Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â rhaglen genedlaethol i ddysgu gwersi ynghylch hawliadau sy'n cael ei chynnal gan Gronfa Risg Cymru.	Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd	30 Ionawr 2024		

<p>Adolygir a diweddarir y Weithdrefn a'r Broses iawn er mwyn sicrhau bod y broses yn effeithiol ac er mwyn sicrhau ffocws ar ddysgu gwersi. Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â rhaglen genedlaethol i ddysgu gwersi ynghylch hawliadau sy'n cael ei chynnal gan Gronfa Risg Cymru.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd</p>	<p>30 Ionawr 2024</p>		
<p>Adolygir a diweddarir y Weithdrefn a'r Broses ynghylch Cwest er mwyn sicrhau bod y broses yn effeithiol ac er mwyn sicrhau ffocws ar ddysgu gwersi. Ystyrir adborth gan Uwch Grwneriaid EF wrth ymgymryd â'r gwaith hwn.</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Ansawdd</p>	<p>30 Tachwedd 2023</p>		<p>Mae gweithdrefn wedi'i datblygu a chaiff ei chyflwyno i dîm y Gweithredwyr i'w chymeradwyo yn Hydref 2023.</p>

¹ **Diffiniadau o statws RAG:** **Gwyrdd:** Ar y trywydd iawn, **Ambr:** Ddim ar y trywydd iawn ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd iawn, **Coch:** Ddim ar y trywydd iawn heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd iawn